**Lee Waters AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd**
**Deputy Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1296
Ein cyf/Our ref LW/01783/22

Jack Sargeant AS

10 Hydref 2022

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Awst ynglŷn â deiseb P-06-1296, i wneud cyffordd Comins Coch (Dorglwyd) ar yr A487 yn fwy diogel.

Fel y gwyddoch, cyhoeddais adolygiad o waith adeiladu ffyrdd yng Nghymru ym mis Mehefin 2021 a oedd yn ymgais onest ac egwyddorol i geisio sicrhau bod y wyddoniaeth wirioneddol frawychus ynghylch newid hinsawdd wrth wraidd polisi trafnidiaeth i'r dyfodol. Ar 10 Chwefror, mi wnes i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig i gyflwyno'r newyddion diweddaraf am y gwaith a hefyd restr o gynlluniau oedd yn rhan o'r adolygiad, ac roedd cynllun Comins Coch/Dorglwyd wedi ei gynnwys fel cynllun rhif 13 ar y rhestr yma.

Mae'r Panel Adolygu Ffyrdd wedi cynnal gwaith craffu manwl ar yr holl gynlluniau sydd o fewn cwmpas yr adolygiad. Mae Llywodraeth Cymru nawr yn derbyn cyngor terfynol y Panel ac yn ei ddefnyddio i lywio'r broses o wneud penderfyniadau ar y cynlluniau hynny. Byddaf yn cyhoeddi fy ymateb i'r adroddiad unwaith y bydd y broses honno wedi'i chwblhau yn ystod y misoedd nesaf.

Unwaith y byddwn yn gwybod canlyniad yr adolygiad ffyrdd, byddwn yn gweithredu ar unrhyw argymhellion o ran y gyffordd hon cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn cymeradwyaeth a dyraniad cyllid.

Yn gywir



**Lee Waters AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.